Lloyd & Gravell Ltd

Teitl swydd:

Rheolwr Masnachol

Rôl:

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion i ymuno â'n Tîm Rheoli a chyfrannu at ddatblygu a gweithredu cynlluniau strategol. Byddant yn ymuno â'n tîm rheoli uwch ac yn gyfrifol am reoli pob agwedd ar gost, contractau a rheolaeth ariannol ar gyfer prosiectau adeiladu cyfredol ac yn y dyfodol ledled y busnes. Bydd angen iddynt gyfrannu at gyflawni amcanion targedau'r tîm busnes a masnach gyffredinol, yn ogystal ag i wella parhaus ar draws y busnes.

Dylai ceiswyr fod â chymwysterau Lefel BSc neu gyfwerth mewn Arolwg Meintiol a HNC o leiaf. Bydd angen iddynt ddangos profiad mewn rheolaeth gontractau ynghyd â defnyddio contractau a gweithdrefnau NEC a JCT.Yn briodol, bydd cyfle i ddilyn addysg bellach a datblygiad proffesiynol a gefnogir gan y cwmni.Mae trwydded yrru lân lawn yn ofynnol. Dilynwch y ddolen i weld proffil y swydd.

Pwy ydyn ni a'r hyn a wnawn ni:

Rydym yn gwmni teuluol sydd â gwreiddiau Cymreig wrth galon popeth a wnawn. Fel un o gwmniau adeiladu blaenllaw Cymru a chontractwr sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol, rydym yn adeiladu, adnewyddu ac atgyweirio adeiladau ar gyfer y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'r cwmni wedi newid yn ddiweddar i Ymddiriedolaeth Perchenogaeth Gweithwyr er mwyn hwyluso ein cynllun etifeddu, parhad busnes a thyfiant.

Mae pobl yn adnabod Lloyd & Gravell am lawer mwy nac ansawdd ein gwaith yn unig. Mae'n nhw'n ein hadnabod ni am bwy ydyn ni a beth rydym ni'n ei wneud i sicrhau fod eu prosiectau yn llwyddiant. Er ein bod yn codi adeiladau rhagorol, rydym hefyd yn gweithio'n galed i gyfrannu at les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cymunedau rydym yn gweithio ynddynt, yn cyfrannu'n weithredol i gymunedau ac yn gadael buddion parhaus yn ogystal ag adeilad rhagorol.

Gweithio i Lloyd & Gravell

Rydym am i bobl fwynhau gweithio i'n cwmni a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, bod yn aelod gwerthfawr o dîm a gwybod i sicrwydd bod y cwmni bob amser yn meddwl am eu lles. I gefnogi hyn, mae ein telerau ac amodau cyflogaeth yn gystadleuol.

Rhan o athroniaeth ein cwmni yw Hyfforddi i Gadw Mae hyn yn cynnwys:

- Pecynnau recriwtio a chadw cystadleuol
- Rhaglen hyfforddi ar draws y cwmni
- Cyfleoedd dilyniant gyrfa

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw un sy'n teimlo eu bod yn bodloni gofynion ein swyddi gwag ni waeth beth fo'u hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, anabledd, crefydd a chred neu ddiffyg cred, oedran, rhyw, hunaniaeth o ran rhywedd. a mynegiant rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd neu famolaeth, statws priodasol neu bartneriaeth sifil.

Rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cyfle cyfartal, gwerthfawrogi amrywiaeth a mynd i'r afael ag eithrio cymdeithasol ac yn ymdrechu i sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wraidd popeth a wnawn.

Y cam nesaf

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio am y swydd hon, anfonwch gopi o'ch CV at Amanda Jones 43 Myrtle Hill, Ponthenri, Llanelli, Caerfyrddin. SA15 5PD neu e-bostiwch amanda@lloydandgravell.co.uk. Am ragor o wybodaeth neu drafodaeth anffurfiol ynghylch y swydd, cysylltwch â Robert Charles ar 01269 861160 neu drwy e-bost robert@lloydandgravell.co.uk. Dyddiad cau ar gyfer derbyn CV yw am 12:00 y.p., 20fed o Dachwedd.